Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Feithrin Glan Conwy
# Y Caban
# Ysgol Glan Conwy
# Glan Conwy
# LL28 5ST

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 20/04/2015**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Feithrin Glan Conwy wedi ei lleoli ar dir Ysgol Glan Conwy yn awdurdod lleol Conwy. Mae ar agor bob prynhawn yn ystod tymor yr ysgol. Mae gan y lleoliad dri aelod staff rhan-amser, y mae gan bob un ohonynt gymwysterau addas i weithio â phlant ifanc.

Mae'r lleoliad wedi ei gofrestru i dderbyn hyd at 16 o blant fesul sesiwn, o ddwy flwydd a hanner i bedair blwydd oed. Ar hyn o bryd, mae 24 o blant ar y gofrestr, y mae pump ohonynt yn cael addysg y blynyddoedd cynnar a ariennir ar sail ran-amser. Mae pob un o'r plant yn wyn Brydeinig ac yn siarad Saesneg fel eu hiaith gyntaf. Ychydig iawn o blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Nid oes gan unrhyw blentyn ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn Hydref 2013 ac fe'i harolygwyd ddiwethaf gan Estyn ym Mai 2010.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae'r lleoliad yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu symbylol i bob plentyn
- Mae pob ymarferydd yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd defnyddiol i ddatblygu eu medrau Cymraeg yn dda
- Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd da o holi i gynorthwyo a herio dealltwriaeth plant
- Mae gan y lleoliad ethos cynhwysol a chyfeillgar lle mae pob un o'r plant yn cael eu gwerthfawrogi ac yn gallu manteisio'n gyfartal ar yr holl adnoddau a gweithgareddau
- Mae pob oedolyn yn y lleoliad yn trin plant â gofal a pharch
- Mae ymarferwyr yn cynorthwyo plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae'r ymarferydd arweiniol yn rheoli trefniadaeth ddyddiol y lleoliad yn fedrus
- Mae gan bob un o'r ymarferwyr ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac maent yn cyfrannu'n effeithiol at dîm brwdfrydig, cynorthwyol
- Mae gan yr ymarferydd arweiniol weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad sy'n canolbwyntio ar ddarparu gofal ac addysg o ansawdd uchel i blant ifanc
- Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd o ystod o bartneriaethau llwyddiannus i gynnal a chyfoethogi dysgu a lles y plant
- Mae gan y lleoliad berthynas waith dda â staff ymgynghorol o'r awdurdod lleol
- Mae'r holl staff yn mynychu cyfleoedd hyfforddiant perthnasol sy'n datblygu eu gwybodaeth am arfer y Cyfnod Sylfaen yn briodol

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod gweithgareddau dysgu a gynllunnir yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant

A2 Sicrhau bod sesiynau dysgu grŵp yn caniatáu i bob plentyn gael ei herio ar lefel addas

A3 Datblygu prosesau arfarnu sydd wedi eu seilio ar dystiolaeth o arfer ac sy'n cynnwys targedau gwella addas ar gyfer yr holl staff

A4 Gwella hunanarfarnu a chynllunio gwellant i ganolbwyntio mwy ar dystiolaeth uniongyrchol a deilliannau i blant

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Amherthnasol |
|---|---|

**Safonau: Amherthnasol**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau o ran datblygu eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd bod nifer y plant perthnasol adeg yr arolygiad yn rhy isel i adrodd arni heb adnabod plant unigol.

**Lles: Amherthnasol**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau o ran datblygu eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd bod nifer y plant perthnasol adeg yr arolygiad yn rhy isel i adrodd arni heb adnabod plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu symbylol ar draws holl feysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen. Mae oedolion yn cynllunio gweithgareddau diddorol sy'n canolbwyntio ar ddatblygu dysgu plant trwy chwarae, y tu mewn ac yn yr awyr agored, yn effeithiol. O ganlyniad, mae pob un o'r plant yn awyddus i ymuno ac wedi'u cymell i ddysgu. Mae cynlluniau rhesymol fanwl ar waith ar gyfer gweithgareddau dan arweiniad oedolion. Mae'r rhain yn canolbwyntio'n addas ar ddatblygu medrau plant ar draws meysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, wrth gynllunio dysgu plant, nid yw'r lleoliad yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant yn ddigon da.

Mae cyfleoedd rheolaidd i blant gymryd rhan mewn canu ystod o ganeuon a rhigymau a gwrando ar storïau byr. Er enghraifft, mae bron pob un o'r plant yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn dda i stori am gi bach sy'n cael ei rhannu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae plant yn dysgu i adnabod llythrennau unigol a'u henwau eu hunain trwy ddod o hyd i'w cerdyn enw eu hunain yn ystod amser cofrestru a matiau bwrdd yn ystod amser byrbryd. Mae oedolion yn darparu ystod dda o gyfleoedd i blant fagu hyder â rhif, fel cyfrif arian yn yr ardal chwarae rôl. Mae gan y lleoliad ystod addas o adnoddau i gynorthwyo plant i ddatblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

Mae pob ymarferydd yn gwneud defnydd da o'r Gymraeg trwy gydol y dydd. Maent yn sicrhau bod y plant yn clywed yr iaith Gymraeg trwy gydol y sesiwn ac yn annog plant i ateb cwestiynau syml yn briodol, er enghraifft pan fydd plant yn gofyn am fwyd yn ystod amser byrbryd. O ganlyniad, mae mwyafrif o'r plant yn defnyddio'r Gymraeg ar draws y lleoliad yn annibynnol. Caiff plant ystod addas o gyfleoedd i ddysgu am ddiwylliant a thraddodiadau Cymru, fel trwy ymweliadau yn yr ardal leol a dathlu digwyddiadau diwylliannol, fel Dydd Gŵyl Ddewi.

Gwna'r lleoliad ddefnydd da o ymweliadau â'r ardal leol i gyfoethogi profiadau plant ymhellach, fel ymweld â phlanhigfa i ddysgu am hadau a phlanhigion.

**Addysgu: Da**

Mae gan bob ymarferydd berthynas waith agos â'r plant yn y lleoliad. Maent yn adnabod y plant yn dda ac mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o'u hanghenion personol. Mae pob ymarferydd yn defnyddio ystod o dechnegau holi effeithiol er mwyn helpu plant i ddysgu a datblygu eu medrau meddwl. Maent yn caniatáu i blant wneud penderfyniadau am eu dysgu eu hunain yn fuddiol, ac yn ymyrryd pan fydd yn briodol i gynnig cymorth neu i ymestyn eu dysgu. O ganlyniad, mae pob plentyn yn cymryd rhan mewn ystod dda o weithgareddau'n hapus ac yn dysgu'n dda trwy chwarae archwiliadol. Fodd bynnag, ar ambell i achlysur, mae plant mwy abl yn goruchafu mewn sesiynau dysgu grŵp, sy'n atal plant eraill rhag cyfranogi'n llawn yn y sesiwn.

Mae ymarferwyr yn monitro ac asesu dysgu plant yn rheolaidd. Maent yn casglu ystod addas o wybodaeth am gyflawniadau unigolion ac yn ei mewnbynnu'n effeithlon yn nyddlyfr dysgu personol y plant. Mae oedolion yn defnyddio eu harsylwadau o ddysgu plant i gynllunio ar gyfer dysgu yn y dyfodol yn llwyddiannus. Mae dyddlyfrau dysgu'r plant yn darparu cofnod effeithiol o gynnydd ar draws pob maes o gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, nid yw'r lleoliad yn defnyddio'r wybodaeth y mae'n ei chasglu am safonau plant i nodi tueddiadau yn y cynnydd a wneir gan grwpiau o ddisgyblion yn ddigon da.

Mae trefniadau effeithiol i hysbysu rhieni am gynnydd eu plant trwy gyfarfodydd blynyddol addysgiadol ac adroddiad ysgrifenedig blynyddol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn sicrhau bod diogelwch y plant yn flaenoriaeth uchel. Mae gan oedolion weithdrefnau diogel ar gyfer rheoli'r plant wrth gyrraedd a gadael y lleoliad. Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd da i blant ddysgu am ysgwyddo cyfrifoldebau'n ddyddiol. Er enghraifft, mae 'helpwr heddiw' yn gyfrifol am ddosbarthu adnoddau trwy gydol y sesiwn ac yn cyflawni'r dyletswyddau hyn yn gall.

Mae gan y lleoliad drefniadau addas ar waith i gynorthwyo plant i fwyta ac yfed yn iach a'u hannog i wneud ymarfer corff rheolaidd; er enghraifft, mae amser byrbryd yn cynnwys ffrwythau a llysiau ffres. Mae darpariaeth ar gyfer hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant yn dda. Mae ymarferwyr yn sicrhau, er enghraifft, bod plant yn dysgu am ddiwylliannau eraill trwy galendr o ddigwyddiadau diwylliannol wedi eu cynllunio'n dda, fel dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r lleoliad yn cynorthwyo plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae gan oedolion gysylltiadau addas ag asiantaethau cymorth, fel seicolegwyr addysg ac arbenigwyr iaith a lleferydd. Mae'r lleoliad yn gweithredu'n gyflym pan

fydd yn cydnabod y gall fod angen cymorth ychwanegol ar blant, ac mae'n cysylltu'n briodol ag asiantaethau allanol. Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau bod y lleoliad yn darparu cymorth prydlon i blant ag anghenion ychwanegol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan y lleoliad ethos cynhwysol a chyfeillgar lle mae pob un o'r plant yn cael eu gwerthfawrogi a gall pob un ohonynt fanteisio'n gyfartal ar yr holl adnoddau a gweithgareddau. Mae pwyslais priodol ar ddathlu amrywiaeth. Er enghraifft, mae'r plant yn peintio eu dwylo ac yn gwneud lampau i ddathlu gŵyl Hindŵaidd Diwali. Mae pob ymarferydd yn delio â phlant yn gydymdeimladol a chaiff safbwyntiau plant eu gwerthfawrogi. Er enghraifft, mae plant yn awgrymu'r hyn yr hoffent ei ddysgu ar ddechrau thema.

Mae gan y lleoliad ddigon o staff cymwysedig i fodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen yn briodol. Mae'r ystafell dan do yn symbylol ac yn agor yn uniongyrchol i ardal awyr agored sy'n cynnwys adnoddau da. Gwna ymarferwyr ddefnydd da o'r lle sydd ar gael y tu mewn ac yn yr awyr agored, a chaiff gwaith plant ei arddangos yn dda ar draws y lleoliad. Mae cyfleoedd da i blant ddysgu yn y lleoliad awyr agored, sy'n darparu ystod eang o brofiadau i bob plentyn. Er enghraifft, mae'r gegin fwd yn annog plant i reoli offer bach i gloddio a gwneud marciau. Mae'r ystafell yn ddiogel ac yn sicr.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r ymarferydd arweiniol yn rheoli trefniadaeth ddyddiol y lleoliad yn fedrus. Mae'n darparu arweinyddiaeth effeithiol sy'n canolbwyntio ar ansawdd y dysgu sy'n cael ei ddarparu i bob plentyn. Mae ystod addas o bolisïau a gweithdrefnau ar waith i gynorthwyo â rheoli'r lleoliad, ac mae'r staff yn rhoi'r rhain ar waith yn gyson. Mae'r holl oedolion yn cyfarfod yn rheolaidd i gynllunio dysgu a darpariaeth. O ganlyniad, mae gan bob un o'r ymarferwyr ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau, ac maent yn cyfrannu'n effeithiol at dîm brwdfrydig, cynorthwyol. Mae gan yr ymarferydd arweiniol weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad sy'n canolbwyntio ar ddarparu gofal ac addysg o ansawdd uchel i blant ifanc, ac mae'r weledigaeth hon yn treiddio drwy'r lleoliad. O ganlyniad, mae gan y lleoliad ymdeimlad clir o gyfeiriad.

Mae gan y lleoliad drefniadau boddhaol ar waith ar gyfer cyfarfod arfarnu blynyddol i bob aelod staff. Mae'r ymarferydd arweiniol yn trefnu hyfforddiant unigol a hyfforddiant tîm yn briodol. Fodd bynnag, nid yw'r broses arfarnu yn cael ei chynnal gan dystiolaeth gadarn, gan gynnwys arsylwi addysgu, ac nid oes gan staff targedau â ffocws digonol i'w helpu i wella eu harfer.

Mae'r pwyllgor rheoli yn y cyfarfod yn rheolaidd. Mae ei gyfarfodydd yn canolbwyntio'n briodol ar drefniadaeth a rheoli'r lleoliad. Mae'r lleoliad yn ystyried blaenoriaethau cenedlaethol, fel y Cyfnod Sylfaen, yn briodol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan y lleoliad ddealltwriaeth addas o ansawdd ei ddarpariaeth a'r safonau y mae plant unigol yn eu cyflawni. Mae ymarferwyr yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod anghenion plant ac effeithiolrwydd darpariaeth. Maent yn ceisio barn rhieni trwy holiadur blynyddol a gall rhieni fynychu pob un o gyfarfodydd y pwyllgor. Gwna'r lleoliad ddefnydd o gymorth yr awdurdod lleol i'w helpu i adnabod ei gryfderau a'r meysydd i'w gwella yn briodol. Fodd bynnag, mae arferion hunanasesu'r lleoliad yn rhy anffurfiol ac nid ydynt yn canolbwyntio'n ddigon da ar arfarnu'r cynnydd y mae plant yn ei wneud dros amser. O ganlyniad, nid yw'r lleoliad yn gallu asesu'n gywir sut mae'r mentrau y mae'n eu cyflwyno yn effeithio ar safonau plant.

Mae cynllun datblygu'r lleoliad yn amlinellu blaenoriaethau gwella yn briodol, ynghyd â chostau cysylltiedig ac amserlenni addas. Mae'n nodi'n llwyddiannus y rhai sy'n gyfrifol am symud mentrau ymlaen. Fodd bynnag, nid yw ei dargedau'n canolbwyntio'n ddigon craff ar ddysgu plant bob tro, ac nid yw ei feini prawf llwyddo yn cysylltu'n ddigon da â deilliannau i blant. Mae'r arweinydd yn adolygu'r cynllun trwy gydol y flwyddyn, ond nid oes unrhyw fonitro ffurfiol i asesu ei gynnydd parhaus.

Mae'r lleoliad wedi mynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad diwethaf yn dda. Er enghraifft, erbyn hyn mae safonau plant mewn Cymraeg a darpariaeth y lleoliad ar gyfer yr iaith yn gyson dda.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Gwna'r lleoliad ddefnydd o ystod o bartneriaethau llwyddiannus i gynnal a chyfoethogi dysgu a lles plant. Er enghraifft, mae cysylltiadau agos â'r ysgol y mae'r lleoliad oddi mewn i'w thir yn cynnal trefniadau pontio effeithiol sydd o fudd i'r rhan fwyaf o blant ac yn eu galluogi i ymgartrefu'n gyflym pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol.

Mae'r bartneriaeth effeithiol â rhieni yn golygu y gall ymarferwyr ddarparu ystod ddefnyddiol o wybodaeth am y lleoliad ac am ddysgu'r plant trwy gylchlythyrau, hysbysfyrddau a chyfryngau cymdeithasol. Yn gyfnewid am hynny, caiff rhieni gyfleoedd addas i gyfrannu at ddylanwadu ar ddysgu eu plant a rheolaeth y lleoliad. Mae croeso i bob rhiant fynychu cyfarfodydd y pwyllgor, lle mae'r ymarferydd arweiniol yn rhoi digon o wybodaeth i aelodau am brif ddigwyddiadau'r lleoliad.

Mae gan y lleoliad berthynas waith dda â staff ymgynghorol o'r awdurdod lleol. Mae hyn yn darparu cymorth ac arweiniad gwerthfawr i'r lleoliad, er enghraifft ar ffyrdd i ddatblygu cymhwysedd plant yn yr iaith Gymraeg, ac yn cael effaith gadarnhaol ar brofiadau dysgu plant.

Gwna'r lleoliad ddefnydd da o adnoddau yn y gymuned i gyfoethogi ei ddarpariaeth. Er enghraifft, mae cwmnïau lleol yn darparu adnoddau sylweddol a gwaith adeiladu yn yr ardal awyr agored, gan wella'r amgylchedd dysgu yn fuddiol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan y lleoliad lefel dda o staff â chymwysterau da i addysgu a gofalu am y plant yn y lleoliad. Mae'r holl staff yn mynychu cyfleoedd hyfforddiant perthnasol sy'n datblygu eu gwybodaeth yn briodol. Fodd bynnag, nid yw hyfforddiant yn cysylltu'n ddigon cryf ag arfarniad staff bob tro.

Mae gan y lleoliad ystod effeithiol o adnoddau i gynorthwyo dysgu pob plentyn. Mae'r holl adnoddau'n hygyrch i'r plant ac mae hyn yn annog eu hannibyniaeth yn dda. Mae defnydd cynlluniedig yr ardal ddysgu awyr agored yn cynnig ystod dda o gyfleoedd i blant ddysgu, yn unol ag ethos y Cyfnod Sylfaen.

Mae gan yr ymarferydd arweiniol a'r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth glir o gyllideb y lleoliad ac maent yn blaenoriaethu gwariant yn effeithlon. Mae defnydd oedolion o godi arian yn ychwanegu at adnoddau'r lleoliad yn dda. At ei gilydd, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb. Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Andrew Thorne | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |